

**PWYLLGOR: PWYLLGOR PENSIYNAU**

**DYDDIAD: 29 GORFFENNAF 2019**

**TEITL: RHAGDYBIAETHAU PRISIAD 2019**

**PWRPAS: YSTYRIED A CHYMERADWYO'R RHAGDYBIAETHAU  
ARFAETHEDIG**

**AWDUR: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

---

## **Cyflwyniad**

1. Mae'r papur yma'n darparu cyfle i'r Pwyllgor ystyried a chefnogi'r rhagdybiaethau arfaethedig er mwyn gosod y targed ariannu ar gyfer prisiad teir-blyneddol cyfredol y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019.

## **Cefndir**

### **Rhagdybiaethau Prisiad ar gyfer Prisiad 2019**

2. Mae swyddogion wedi derbyn cynigion gan Actiwari'r Gronfa yn gosod allan opsiynau sut i adeiladu a gosod rhagdybiaethau prisiad. Hefyd, trafodwyd y cynigion sydd wedi'u amlinellu isod gyda Chadeirydd y Pwyllgor.
3. Yn dilyn i fyny o'r trafodaethau yma, mae papur ffurfiol gan yr actiwari wedi'i atodi fel **Atodiad** i'r papur yma, yn cynnig rhagdybiaethau i osod targed buddsoddi ar gyfer prisiad teir-blyneddol parhaus y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a chefnogi'r rhagdybiaethau arfaethedig yn y Crynodeb Gweithredol isod.
5. Bydd ymgynghoriad ffurfiol gyda'r cyflogwyr ar y rhagdybiaethau yma, ynghyd â diwygiadau eraill i'r Datganiad Strategaeth Gyllido o brisiad 2019, mewn un ymgynghoriad yn hwyr yn 2019 neu yn fuan yn 2020.

## **Argymhellion**

6. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r rhagdybiaethau arfaethedig yn y tabl crynodeb dilynol ac wedi'u manylu yn yr Atodiad er mwyn gosod y targed ariannu ar gyfer prisiad teir-blyneddol cyfredol y Gronfa fel ar 31 Mawrth 2019 -

Crynodeb rhagdybiaethau arfaethedig ar gyfer prisiad 2019:

Rhagdybiaeth	Rhagdybiaeth 2016	Arfaethedig 2019	Rheswm dros y newid
Raddfa disgownt <ul style="list-style-type: none"> <li>Maint uwch na'r raddfa di-risg</li> </ul>	1.7% y.f.	1.7% y.f.	Dim newid, lefel darbodus yn gyson gyda phrisiad 2016
Codiadau Pensiwn <ul style="list-style-type: none"> <li>Bwlch RPI-CPI</li> </ul>	CPI yn llai o 1.0% y.f.	CPI yn llai o 1.0% y.f.	Dim newid
Codiadau cyflog <ul style="list-style-type: none"> <li>Chwyddiannol</li> </ul>	RPI llai 1% (=CPI)	CPI + 0.3% y.f. (RPI llai 0.7%)	Disgwylir codiadau cyflog tymor byr uwch
Hirhoedledd <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwaelodlin</li> <li>Gwelliannau yn y dyfodol</li> </ul>	Dadansoddiad 'Club Vita'  Model CMI, fersiwn 2013, raddfa gwelliannau hirdymor o 1.25% y.f.	Dadansoddiad 'Club Vita'  Model CMI (fersiwn diweddarach), raddfa gwelliannau hirdymor o 1.25% y.f.	Dim newid ym methodoleg. Fersiwn diweddarach o dabl CMI yn adlewyrchu profiad mwy diweddar.
Alldyniadau	Gweithredu graddfa o 85% i ragdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson ar gyfer gwrywod rhan amser a 90% i holl fenywod yn ôl-weithredol, a gweithredu'r rhagdybiaeth rhagosodedig ar gyfer gwrywod llawn amser		
Ymdeoliadau oherwydd salwch	Haen 1; Gweithredu graddfa o 70% i ragdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson ar gyfer menywod llawn amser, fel arall gweithredu'r rhagdybiaeth rhagosodedig  Haen 2; Gweithredu rhagdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson		
Codiadau cyflog hyrwyddol	Dim newid (gweithredu rhagdybiaeth rhagosodedig Hymans Robertson)		
Opsiwn '50:50 take-up'	2%	0.5%	Adlewyrchu'r gyfradd hawlio isel parhaus
Arian parod y gellir ei gymudo	Dim newid arfaethedig o ragdybiaeth prisiad 2016		
Marwolaethau cyn ymddeol	Dim newid arfaethedig o ragdybiaeth prisiad 2016		
Cyfran wedi priodi	Dim newid arfaethedig o ragdybiaeth prisiad 2016		
Oed ymddeol	Addasiad bychan i adlewyrchu profiad sy'n dod i'r amlwg		

7. Mae manylion llawn am y rhagdybiaethau wedi'u gosod allan yn adroddiad yr Actiwari, wedi'i amgáu yma fel Atodiad.